

Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth

Mae rhwydweithiau amrywiaeth staff yn amrywio'n fawr ond mae ganddynt nifer o bethau yn gyffredin. Maent yn dod â gweithwyr sydd â nodweddion cyffredin megis rhywedd, hil, treftadaeth ddiwylliannol, hunaniaeth o ran rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd, oedran ac anabledd ynghyd mewn gofod diogel ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'w haelodau.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd cymdeithasol a datblygu, mentora, gwirfoddoli, rhannu arferion gorau, a chyfle i ennill sgiliau a phrofiad mewn meysydd na fyddant efallai'n cael y cyfle i'w gwneud yn eu swydd o ddydd i ddydd. Gall unrhyw un ymuno â'n rhwydweithiau beth bynnag fo'u band ac a ydych chi'n gynghreiriad ai peidio. Rhoddir amser yn ystod y diwrnod gwaith i fynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

"Rydym wir yn gwerthfawrogi'r gwerth ychwanegol y mae rhwydweithiau amrywiaeth ein gweithlu yn ei roi i'r sefydliad. Maent yn sicrhau ein bod yn ystyried anghenion a barn ein holl staff wrth gynllunio a llywio ein sefydliad, ac maent yn ein galluogi i wreiddio safbwyntiau menywod, dynion, staff LHDTTC+, staff lleiafrifoedd ethnig, staff anabl a chynghreiriaid, sydd i gyd yn ein cefnogi a'n herio."

Neil Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rydym yn ffodus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru fod gennym 6 grŵp rhwydwaith staff.

- Grŵp Rhwydwaith Menywod
- REACH – Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol
- PORFFOR – Rhwydwaith Anabledd Staff
- ENFYS – Rhwydwaith LHDTTC+
- Rydym yn Gofalu – Rhwydwaith Gofalwyr
- YMLAEN – Rhwydwaith y Gymraeg

Beth mae ein rhwydweithiau staff yn ei wneud?

- Rhoi cyngor ar bolisiau a gweithdrefnau
- Cydgysylltu â'r sefydliad ar sut i wella ein diwylliant
- Trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth
- Cefnogi staff ar draws y sefydliad
- Trefnu gweithgareddau cymdeithasol

Beth yw'r manteision i aelodau'r rhwydweithiau staff?

Mae llawer o fanteision sy'n dod yn sgil bod yn rhan o rwydwaith staff, sy'n cynnwys:

- Datblygiad Personol
- Cymorth gan eraill
- Cyfle i lywio'r sefydliad ac achosi newid
- Teimlo'n fwy gwerthfawr
- Cyfleoedd i rwydweithio

Os hoffech wybod mwy am ein rhwydweithiau, cysylltwch â Ffion Grundy, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, am wybodaeth gyffredinol ar ffion.grundy@wales.nhs.uk



Public Health Wales Staff Diversity Networks

Working together, with trust and respect to make a difference

Staff diversity networks come in all shapes and sizes but have a number of things in common. They bring employees with shared characteristics such as gender, race, cultural heritage, gender identity, gender reassignment, sexual orientation, faith, age, and disability together in a safe space and offer a range of opportunities for their members.

These include social and development opportunities, mentoring, volunteering, sharing best practice, and a chance to gain skills and experience in areas they may not get the opportunity to do in their “day job”. Anyone can join our networks whatever their band and if you are an ally. Time is given during the working day to attend meetings or events.

“We really appreciate the added value our workforce diversity networks bring to the organisation. They ensure that we take into account the needs and views of all our staff when we are planning and shaping our organisation, and enable us to incorporate the perspectives of women, men, LGBTQ+ staff, ethnic-minority staff, disabled staff and allies, all of which both support and challenge us.”

Neil Lewis, Director of People and Organisational Development

In Public Health Wales, we are fortunate to have 6 staff network groups.

- Women’s Network Group
- REACH – Race, Ethnicity and Cultural Heritage Network
- PORFFOR – Staff Disability Network
- ENFYS – LGBTQ+ Network
- We Care – Carer’s Network
- YMLAEN – Welsh Language Network

What do our staff networks do?

- Advise on policies and procedures
- Liaise with the organisation on how to improve our culture
- Organise awareness raising events
- Support staff across the organisation
- Organise social activities

What are the benefits to staff network members?

There are many benefits to being part of a staff network, which include:

- Personal development
- Support from others
- Opportunity to shape the organisation and effect change
- Feel more valued
- Networking opportunities

If you'd like to know more about our networks, please contact Ffion Grundy, Equality, Diversity and Inclusion Manager, for general information on ffion.grundy@wales.nhs.uk

